# Hybu annibyniaeth â meddyginiaeth

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi’r gofynion wrth hybu annibyniaeth unigolion i ddefnyddio meddyginiaeth a hunanfeddyginiaethu. Mae'r safon yn cynnwys paratoi a chynorthwyo ar gyfer rhoi meddyginiaeth, yn ogystal â rhoi arferion diogel ar waith i sicrhau bod cyflenwadau meddyginiaeth yn cael eu derbyn, eu storio a'u gwaredu'n ddiogel.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. nodi a chytuno ar rolau a chyfrifoldebau eich hun ac eraill i hybu annibyniaeth unigolion i roi meddyginiaeth
2. cael caniatâd a chael gafael ar wybodaeth am unigolion a'u meddyginiaeth
3. adolygu neu gwblhau asesiadau risg meddyginiaeth i gefnogi annibyniaeth unigolion i hunan-weinyddu
4. cefnogi unigolion ac eraill i gael gafael ar gyflenwadau o feddyginiaeth ar bresgripsiwn
5. cefnogi unigolion ac eraill i storio meddyginiaeth yn unol ag asesiadau risg a gofynion storio meddyginiaeth
6. cefnogi unigolion ac eraill i sicrhau nad yw'r feddyginiaeth wedi mynd heibio ei dyddiad ac i waredu meddyginiaeth sydd heb gael ei defnyddio neu sy'n hen
7. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion i nodi sut, ble a phryd i hunanfeddyginiaethu yn unol ag asesiadau risg a gofynion y presgripsiwn
8. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion i gadarnhau'r adnoddau a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i hunanfeddyginiaethu yn unol ag asesiadau risg a chynlluniau gofal neu gymorth
9. dilyn dulliau atal a rheoli heintiau a ddefnyddir ar gyfer defnyddio meddyginiaeth, a chefnogi unigolion i wneud hynny
10. annog a chefnogi unigolion i hunanfeddyginiaethu yn unol ag asesiadau risg a chynlluniau gofal neu gymorth
11. arsylwi bod meddyginiaethau'n cael eu rhoi'n gywir yn unol â gofynion y presgripsiwn
12. cwblhau'r cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer hybu annibyniaeth â meddyginiaeth
13. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau i hybu annibyniaeth â meddyginiaeth

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut mae cael gafael ar wybodaeth am unigolion a meddyginiaeth
2. sut mae asesiadau risg yn cael eu defnyddio i gefnogi annibyniaeth unigolion i hunanfeddyginiaethu
3. manteision cefnogi'r unigolyn i hunanfeddyginiaethu yn ddiogel
4. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma wrth gefnogi unigolion i hunanfeddyginiaethu
5. dylanwad diwylliant, cefndir a daliadau ysbrydol ar y defnydd o feddyginiaeth
6. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth gefnogi unigolion i hunanfeddyginiaethu
7. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol wrth hunanfeddyginiaethu
8. y mathau cyffredin o feddyginiaeth a'u defnydd cyffredinol
9. storio a gwaredu meddyginiaeth yn ddiogel
10. y gwahanol ddulliau gweinyddu a'r mathau o feddyginiaeth
11. yr adnoddau a all helpu i roi meddyginiaeth
12. sut mae defnyddio dyfeisiau ac adnoddau digidol i hybu annibyniaeth â meddyginiaeth
13. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar y defnydd o feddyginiaeth
14. rhagofalon hylendid a chanlyniadau posibl peidio â'u dilyn wrth ddefnyddio meddyginiaeth
15. sut mae adnabod ac ymateb i adwaith neu argyfwng iechyd gyda meddyginiaeth
16. y cofnodion ac adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer hybu annibyniaeth â meddyginiaeth
17. damcaniaethau sy'n berthnasol i hybu annibyniaeth â meddyginiaeth
18. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a'r canllawiau perthnasol ar gyfer hybu annibyniaeth â meddyginiaeth
19. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth hybu annibyniaeth â meddyginiaeth
20. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i hybu annibyniaeth â meddyginiaeth
21. sut mae eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth hybu annibyniaeth â meddyginiaeth, a sut i fynd i'r afael â hyn

22. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu o ran hybu annibyniaeth â meddyginiaeth

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

HSCCLD313

Hybu annibyniaeth â meddyginiaeth

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD313 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | meddyginiaeth, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |